COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 27 MAWRTH 2023, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | D M Hughes | M Lewis | AJ Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Davies, P Ford, RL Penhale-Thomas, A Wathan a/ac R Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Raeanna Grainger | Independent Reviewing Service Manager |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Iain McMillan | Rheolwr Grŵp - Rheoli Achos a Throsglwyddo |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |
| Kathy Proudfoot | Carers Development Officer |
| Andrew Thomas | Rheolwr Grŵp - Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar |
| Councillor Rhys Goode | Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol |

30. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorwyr Della Hughes a Jane Gebbie fuddiant personol yn eitem 4 ar yr Agenda fel gofalwyr di-dâl.

31. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 2, dyddiedig 3 Tachwedd 2022 a 20 Ionawr 2023, fel cofnod gwir a chywir.

32. CEFNOGAETH I OFALWYR IFANC A GOFALWYR SY'N OEDOLION.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Pwyllgor am ofynion Siarter y Gofalwyr yng Nghymru a'r meysydd ffocws cysylltiedig a all gefnogi gofalwyr di-dâl i gynnal eu llesiant a disgrifio'r gwaith sy'n cael ei wneud ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gefnogi gofalwyr di-dâl, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried pa mor dda y mae'r Cyngor, a'i bartneriaid, yn cefnogi gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion.

Diolchodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Y gefnogaeth sydd ar gael i alluogi gofalwyr ifanc i barhau â'u haddysg ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gofalu.
- Polisïau Gofalwyr Ifanc Ysgolion a chymorth ymarferol mewn ysgolion gan gynnwys cymorth gyda gwaith a cheisiadau am amser ychwanegol ar gyfer arholiadau.
- Yr heriau a wynebwyd gan ofalwyr ifanc yn ystod y pandemig, yn aros adref gyda holl aelodau'r teulu heb unrhyw ofal seibiant.
- Dywedodd y gofalwr ifanc wrth yr Aelodau ei bod yn gweld cadw at drefn, mynd am dro a chymryd rhan mewn gwersi ar-lein yn ddefnyddiol. Teimlai hefyd, ers y pandemig, fod buddion y Cerdyn Gofalwr Ifanc wedi gwella pethau'n wirioneddol a'i bod wedi canfod gwerth gwirioneddol yn y Rhwydwaith.
- Unrhyw welliannau angenrheidiol i gefnogi gofalwyr ifanc yn dangos pwysigrwydd eu canfod a mewnbwn gan Grŵp Llywio'r Gofalwyr Ifanc.
- Clywodd aelodau gan gyfranogwr yn Rhaglen Seibiant Gofalwyr chwe wythnos Halo, sy'n gofalu am ei gŵr ag Alzheimer's. Fe wnaeth hi drafod cynnwys y Rhaglen a'i bod wedi ei chael yn barchus, yn dangos dealltwriaeth ac yn llawn gwybodaeth. Dywedodd fod trefnu gofal ar gyfer ei gŵr a'i galluogi i fynychu'r Rhaglen wedi bod yn amhrisiadwy ond gofynnodd am ystyried darparu cludiant i gyfranogwyr nad oeddent yn gyrru.
- Datblygiad cymorth dementia a gwaith ymgysylltu gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyda mewnbwn gan Gydlynydd Dementia i lywio cynlluniau a gwasanaethau lleol a rhanbarthol.
- Nifer a ffynhonnell yr atgyfeiriadau i Ofal Cymdeithasol i Oedolion, canran y gofalwyr oedd yn derbyn cyngor a chymorth a nifer a chanlyniadau asesiadau llawn o anghenion gofalwyr.
- Nifer asesiadau gofalwyr ifanc a faint oedd yr Awdurdod yn gwybod amdanynt eisoes.
- Gweithredir cyllid ar gyfer y cymorth drwy Whitehead Ross a'i ffocws ar anghenion unigol gofalwyr ifanc.
- Argaeledd Cardiau Gofalwyr i oedolion drwy'r gwasanaeth newydd a gomisiynwyd o 1 Ebrill 2023, TuVida.
- Nifer ac amrywiaeth y gofalwyr oedd yn gwneud sylwadau cadarnhaol am y rhaglenni Lles Gofalwyr a Seibiant a Theimlo'n Dda am Oes.
- Diweddariad ar fenter lwyddiannus Croeso Cynnes a'r ystod eang o adnoddau a gweithgareddau sydd ar gael.
- Canfod mwy o ofalwyr a rôl cymunedau a Chydlynwyr Cymunedol.
- Maint y cymorth cymunedol yn ystod y pandemig a phwysigrwydd gwasanaethau ataliol a gwasanaethau statudol amserol, pan fo angen.

Dywedodd y Cadeirydd fod Aelodau'r Pwyllgor oedd yn dymuno gofyn cwestiynau i gyd wedi siarad, ac felly gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd iddynt am fod yn bresennol a dywedodd, os nad oedd eu hangen ar gyfer yr Eitem nesaf, eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda'r Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

1. Trosolwg ar y cymorth sydd ar gael i ofalwyr ifanc yn yr ysgol a'r coleg a'r cymorth sydd ar gael i'w galluogi i barhau â'u haddysg ochr yn ochr â gofalu.

2. Y DigiStory a'r astudiaeth achos y cyfeiriwyd ati gan Hamdden Halo, sy'n disgrifio rhai o heriau a phrofiadau gofalwyr di-dâl.

3. Dadansoddiad (mewn niferoedd yn hytrach na chanrannau) o'r camau a gymerwyd/canlyniadau'r 362 o gysylltiadau a wnaed â gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion ar ran gofalwyr yn 2021-22.

4. O'r 96 o asesiadau gofalwyr ifanc a gynhaliwyd ers Ebrill 2022, dangosai dadansoddiad faint oedd yn asesiadau gofalwyr newydd a faint o'r achosion oedd y gwasanaeth yn gwybod amdanynt eisoes.

33. <u>YMWELIAD GWIRIO GWELLIANT AROLYGIAETH GOFAL CYMRU (AGC) Â GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL PLANT - 21-24 TACHWEDD 2022</u>

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yr adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno i'r Pwyllgor adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am eu hymweliad gwirio gwelliant â Gwasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod mis Tachwedd 2022 a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig wedi'i ddiweddaru.

Diolchodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Diolch i Ddirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Plant am ei ymroddiad a'i ymrwymiad yn ystod ei gyfnod gyda'r Awdurdod.
- Nifer y meysydd a nodwyd fel rhai sydd angen gweithredu pellach a'r gyllideb angenrheidiol i gefnogi'r gwelliannau gan amlygu cost staff asiantaeth a gweithrediad parhaus model yr Arwyddion Diogelwch.
- Gellid disgwyl ymweliadau gyda rhybudd ac ymweliadau dirybudd gan AGC i fonitro cynnydd a dylai ymarfer fod o'r safon a ffefrir p'un a oedd y Gwasanaeth yn cael ei arolygu ai peidio.
- Mae taith gwella'r Gwasanaeth yn gofyn am arweiniad strategol â ffocws a buddsoddiad cynaliadwy dros amser a'r angen i gael y model ymarfer yn gywir.
- Meysydd o bwysau sy'n nodweddiadol ar draws yr holl awdurdodau megis heriau recriwtio, a meysydd sy'n annodweddiadol, megis y cynnydd mewn atgyfeiriadau, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol plant, ar lefel y nododd dadansoddiad gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus fyddai'n debygol o barhau am 2 flynedd o leiaf.
- Niferoedd a rheolaeth achosion agored o fewn pob un o'r canolfannau lleol a chofnodi atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA).
- Mentrau i wella recriwtio gan gynnwys prentisiaethau, recriwtio rhyngwladol, buddsoddi mewn Tyfu ein rhai ni ein hunain a gweithredu rolau Swyddogion Cymorth Gwaith Cymdeithasol a phryderon ynghylch bylchau mewn rhai gwasanaethau a dibyniaeth ar staff asiantaeth sydd angen gweithredu parhaus.

- Y cyd-destun o amgylch y statws glas, coch, ambr, gwyrdd (BRAG) a briodolir i bob ‘maes i’w wella’ yng Nghynllun Gweithredu’r Gyfarwyddiaeth.
- Digonolrwydd lleoliadau gan gynnwys yr agenda dileu elw a defnyddio lleoliadau heb eu cofrestru a lleoliadau y tu allan i'r sir.
- Y camau sy’n cael eu cymryd i fynd i’r afael â mater blaenoriaeth camfanteisio ar blant, gan gynnwys gwaith rhanbarthol a gweithio mewn partneriaeth.
- Yr adolygiad cyflym a mesurau i wella cyswllt dan oruchwyliaeth rhwng plant sydd â phrofiad o ofal a'u teuluoedd.

Diolchodd y Pwyllgor i Ddirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Plant am ei ymroddiad a’i ymrwymiad yn ystod ei amser gyda’r Awdurdod a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd y Cadeirydd fod Aelodau'r Pwyllgor oedd yn dymuno gofyn cwestiynau i gyd wedi siarad, ac felly gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd iddynt am fod yn bresennol a dywedodd eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda’r Swyddogion ac Aelodau’r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

1. Mynegwyd pryder ynghylch cynaladwyedd y gyllideb i gynnal y pwysau cyllidebol yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac argymhellodd y Pwyllgor y dylid dechrau'r broses o osod y gyllideb yn gynt er mwyn cael mewnbwn trawsbleidiol i gynorthwyo'r Cabinet yn yr hyn a allai fod yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig heriol.

2. Rhoi cyngor i bob Cyfarwyddiaeth ynghylch safoni’r Statws BRAG a ddefnyddir mewn Adroddiadau a Chynlluniau Gweithredu i sicrhau ymagwedd ac ystyr cyson.

a gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

3. Mewn perthynas â’r cynnydd o 32% mewn cysylltiadau/atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod Ebrill i Awst 2022, nifer y cysylltiadau y mae’n cyfeirio atynt.

4. Copi o’r Offeryn Sgrinio am Gamfanteisio sy’n cael ei dreialu yn y Ganolfan Ddiogelu Aml-Asiantaeth, copi o’r cyflwyniad a roddwyd i benaethiaid ynghylch camfanteisio ac unrhyw ddiweddariad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cwm Taf yn ymwneud ag arfer gorau yn y dull o ymdrin â chamfanteisio.

5. Crynodeb o'r argymhellion a'r mecanweithiau tymor byr a gychwynnwyd yn dilyn adolygiad cyflym o gyswllt dan oruchwyliaeth.

34. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu’r Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A i'r Pwyllgor ei thrafod a'i hystyried, gan ofyn am unrhyw wybodaeth benodol a nodwyd gan y Pwyllgor i'w chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys y bobl y

dymunent eu gwahodd i fynychu. Gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith gan gofio'r meini prawf dethol ym mharagraff 4.3 a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfod blaenorol yn Atodiad B. Gofynnodd hefyd i'r Pwyllgor nodi y ceid adroddiad am y Flaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor a'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.

Gofynnodd yr Aelodau am i'r adroddiad ynghylch Ymyrraeth Gynnar i Leihau nifer y Plant sydd â Phrofiad o Ofal, a Phwysau Allweddol gan gynnwys IAA, gael ei drefnu cyn gynted â phosibl a chroesawyd sesiwn briffio i'r Aelodau ar yr Adolygiad Ymarfer Plant diweddar.

Ni nodwyd eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith o ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 4.3, a gellid ailystyried hyn yn y cyfarfod nesaf.

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn amodol ar gynnwys y ceisiadau uchod, yn nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B, ac yn nodi y ceid adroddiad am y Flaenraglen Waith, y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yng nghyfarfod nesaf COSC.

35. EITEMAU BRYS

Dim.